

---

# Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014/15

---

Rheolwr Perthynas: Robin Bradfield  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Ffôn: 0300 062 8976

## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei rôl yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.



Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgareddau yn y bwrdd iechyd hwn a byrddau iechyd eraill yw:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn gwella
- Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth glir ac amserol am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth

## Trosolwg

Yn ystod 2014/15, gwnaeth rhaglen arolygu AGIC ganolbwyntio ar gael cwmpas eang ar draws y GIG, yn ôl math o leoliad ac arbenigedd. Yn ystod y flwyddyn, mae AGIC wedi cynnal 58 o ymweliadau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ac roedd y rhain yn cynnwys saith arolygiad urddas a gofal hanfodol, tri arolygiad urddas a gofal hanfodol dilynol, naw arolygiad deintyddol, pedwar arolygiad o feddygfeydd, a 35 o fathau eraill o ymweliadau (tri laser, 19 Deddf Iechyd Meddwl, pum uned iechyd meddwl, pedwar adolygiad marwolaeth yn y ddalfa, tri adolygiad gan gymheiriaid, ac un clinig colli pwysau). Mae lleoliadau a dyddiadau'r ymweliadau hyn wedi eu nodi isod.

## Themâu Allweddol

Nodwyd y themâu allweddol canlynol yn sgil ein harolygiadau yn ystod 2014/15.

### **Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol**

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn ganolog i ddull arolygu AGIC yn y GIG yng Nghymru. Rydym wedi cynyddu ein presenoldeb a'n hamlygrwydd yn y GIG, ac wedi sicrhau bod ein canfyddiadau'n cael eu hadrodd mewn ffordd amserol ac adeiladol er mwyn helpu i wella.

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol yn ystyried pedwar maes:

- **Profiad y Claf**

Gwnaethom barhau i wrando ar lais y claf (oedolion a phlant). Gwnaethom greu cronfa fwy o adolygwyr lleyg a gafodd lawer o gymorth a chyfathrebu gan staff AGIC, ac a wnaeth ein helpu i sicrhau bod ein gwaith yn cynrychioli safbwynt y cleifion.

- **Hanfodion Gofal**

Gwnaeth ein harolygiadau barhau i ganolbwyntio ar ddarparu agweddau sylfaenol ar ofal a chanlyniadau i gleifion ym mhob lleoliad gofal iechyd. Rydym wedi parhau i adolygu hyn, ac wedi gweithio â Llywodraeth Cymru yn ystod ei harolygiad o'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru – sy'n cynnwys yr agweddau sylfaenol ar ofal – er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i alinio ein dulliau â'r disgwyliadau ar gyfer y GIG yng Nghymru.

- **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Rydym wedi gwella ein hadolygiad o reolaeth ac arweinyddiaeth er mwyn rhoi prawf ar ddiwylliannau mewn gwasanaethau a sefydliadau, ac i adolygu sut mae sefydliadau'r GIG yn monitro eu perfformiad mewnol yn erbyn safonau sylfaenol yn ymwneud ag urddas a gofal hanfodol.

- **Ansawdd a Diogelwch**

Rydym yn cydnabod y gallai unrhywun sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd fod yn agored i niwed, ac rydym wedi sicrhau bod ein rhaglenni gwaith ein hunain, ein dulliau arolygu, a'n harferion gwaith yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae sefydliadau gwasanaeth iechyd yn darparu cymorth priodol er mwyn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a allai fod yn agored i niwed yn cael eu diogelu.

## Themâu'r Arolygiadau:

- **Ansawdd profiad y claf:**

Ar y cyfan, mae'r adborth cleifion a dderbyniwyd gan AGIC wedi bod yn gadarnhaol, a dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r triniaethau, a'u bod yn canfod y staff yn gwrtais, yn gydwybodol, yn broffesiynol ac yn barchus.

- **Cyflenwi hanfodion gofal**

Yn gyffredinol, gwelsom dimau o staff sydd wedi ymrwymo i gyflenwi'r hanfodion gofal i ansawdd uchel. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud ag agweddau ar ddarparu hanfodion gofal. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Cyfathrebu a gwybodaeth* – sicrhau bod cleifion a'u perthnasau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu gofal a'u triniaeth trwy gydol eu harhosiad. Hefyd, er mwyn i gleifion a'u perthnasau fod yn ymwybodol o bwy y gallant ofyn iddynt am y wybodaeth hon.

*Parchu pobl* – sicrhau y cymerir camau digonol i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion, ac yn benodol, sut y gall amgylchedd y ward effeithio ar hyn.

*Hybu annibyniaeth* – sicrhau bod cleifion yn cael eu hannog i fod mor annibynnol ag y mae eu cyflyrau'n eu caniatáu. Gwneud amgylcheddau'r ward mor hygyrch â phosibl i gleifion sydd â dementia/dryswch, anghenion synhwyraidd a/neu anghenion cymhleth.

*Sicrhau cyfforddusrwydd, lleddfu poen* – sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd, bod dogfennau poen priodol yn cael eu defnyddio, a bod y rhain yn ddigon manwl i esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau a wnaed yn hyn o beth.

*Hylendid personol, ymddangosiad a gofal traed* – sicrhau y bydd anghenion pob claf yn cael eu diwallu o ran eu hylendid, eu hymddangosiad a'u gofal traed. Hefyd, bod cyfleusterau'r ward a'r lefelau staffio yn ddigon i gynorthwyo o ran cyflawni'r safon hon yn effeithiol.

*Bwyta ac yfed* – sicrhau bod cleifion yn gallu derbyn cymorth amserol a phriodol adeg prydau bwyd, yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal a chymorth yn unol â Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan.

*Atal briwiau pwysu* – sicrhau bod y staff yn dilyn llwybr cyson o reoli'r risg y bydd cleifion yn datblygu briwiau pwysu. Hefyd, dylid sicrhau bod dogfennau (cynlluniau gofal a siartiau monitro) yn darparu asesiad a chanllawiau cywir a chyfredol sy'n hawdd eu dilyn, er mwyn rheoli gofal y claf mewn modd priodol yn hyn o beth.

- **Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, gwelsom fod timau staff ymroddedig, gweithgar a phrofiadol yn darparu gofal i'r cleifion. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud ag ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Lefelau staffio* – sicrhau bod digon o staff ar y wardiau a bod y lefelau staffio'n cyd-fynd â lefelau aciwtedd y cleifion, a'u bod yn ystyried y canllawiau presennol yn hyn o beth.

*Hyfforddiant staff* – sicrhau y rhoddir sylw i ddiffygion o ran sgiliau a gwybodaeth y gweithlu. Yn benodol, bod y staff yn cael cymorth i gadw'n gyfredol gyda hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau ac y gallant weithio'n ddiogel ac yn effeithiol gyda chleifion.

- **Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod systemau ar waith i fonitro, archwilio a rheoli diogelwch cleifion ac ansawdd yr amgylchedd, gofal a thriniaeth. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud ag agweddau ar ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Rheoli meddyginiaeth* – sicrhau bod pob aelod o staff yn deall y gweithdrefnau cywir i'w dilyn ar gyfer storio a gweinyddu meddyginiaeth ac i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau lleol a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

*Dogfennau* – sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r trefniadau cofnodi ar gyfer pob agwedd ar ofal cleifion. Hefyd, bod yr holl staff yn deall yr egwyddorion a'r angen i gael safonau uchel yn gyson wrth gadw cofnodion.

## **Arolygiadau o bractisau deintyddol y GIG a/neu bractisau deintyddol preifat**

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau deintyddol yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hyn. Lle y bo angen, rydym yn gwneud argymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Dechreuodd ein harolygiadau o bractisau deintyddol yng Nghymru ym mis Awst 2014. Mae ein rhaglen reolaidd o arolygiadau deintyddol yn golygu y bydd AGIC yn arolygu pob practis deintyddol o leiaf unwaith bob tair blynedd. Os ydym yn derbyn gwybodaeth am ddeintydd efallai nad yw'n bodloni'r safonau gofynnol, efallai y byddwn yn cynnal arolygiadau'n fwy rheolaidd.

Cynhelir ein harolygiadau gan reolwr arolygu AGIC profiadol ynghyd ag adolygydd allanol sy'n ddeintydd â phrofiad ymarferol diweddar o ddeintyddiaeth.

Yn ystod ein harolygiadau, rydym yn ystyried y meysydd canlynol:

- **Profiad y claf** – rydym yn gofyn i gleifion beth maent yn ei feddwl am y practis.
- **Safonau** – rydym yn archwilio sut mae'r practis yn bodloni'r safonau gofynnol yn gysylltiedig â meysydd penodol deintyddiaeth.
- **Rheolaeth ac arweinyddiaeth** – rydym yn ystyried sut y rheolir y practis. Rydym yn gwirio bod polisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel.
- **Amgylchedd y practis** – rydym yn edrych ar yr adeilad a'r cyfleusterau sydd yn y practis er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel ar gyfer cleifion a staff.

Rydym yn arolygu deintyddion y GIG, deintyddion sy'n gwneud gwaith preifat, a deintyddion sy'n gwneud cymysgedd o waith preifat a gwaith y GIG. Rydym yn gwirio bod deintyddion yn cyrraedd safonau'r GIG a, lle y bo'n briodol, gofynion cyfreithiol Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## **Themâu'r Arolygiadau:**

- **Profiad y Claf**

Ar y cyfan, mae'r adborth y mae AGIC wedi'i dderbyn wedi bod yn gadarnhaol, ac ymhlith y cleifion mae lefel uchel o foddhad ar y gwasanaethau a ddarperir. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud â phrofiad y claf. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Hyrwyddo iechyd* – sicrhau bod y cleifion yn derbyn rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac atal canser y geg/ymwybyddiaeth o ganser y geg.

*Adborth gan gleifion* – sicrhau bod ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.

*Cwynion* – sicrhau bod gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn yn hygyrch, a'i bod yn unol â gofynion y canllawiau, safonau a rheoliadau perthnasol.

- **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

Ar y cyfan, canfuwyd bod y practisau'n darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud â chyflawni'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Hanesion meddygol* – sicrhau bod hanes meddygol pob claf ar gael, a'i fod yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd i gadarnhau ei fod wedi ei ddarllen a'i fod wedi gweithredu arno.

*Dadheintio cyfarpar a storio* – sicrhau bod y trefniadau dadheintio yn effeithiol a bod cyfarpar yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddi-haint.

*Rheoli heintiau* – sicrhau effeithiolrwydd trefniadau rheoli heintiau, gan gynnwys hyfforddi staff yn y maes hwn.

*Cofnodion cleifion* – sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cofnodi'n briodol a bod cofnodion y cleifion yn gyflawn ac yn gywir.

- **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, roedd y practisau wedi eu rheoli a'u harwain yn dda gan dimau o staff ymroddedig. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud â rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Arfarniadau staff* – sicrhau bod staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a bod y rhain yn cael eu cofnodi'n briodol.

*Diogelu* – sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r trefniadau lleol y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth.

*Sicrhau ansawdd* – sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol.

- **Ansawdd yr Amgylchedd**

Ar y cyfan, canfuwyd bod y lleoliadau'n darparu amgylcheddau diogel i'r cleifion dderbyn triniaeth ynddynt. Tra bod adroddiadau o arferion unigol wedi nodi meysydd i'w gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r golwg yn hyn o beth.

## **Arolygiadau o Bractisau Cyffredinol**

Ym mis Hydref 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Dysgu at y dyfodol: Symud ymlaen ac adeiladu ar argymhellion ymchwiliad Robert Powell'. Roedd y ddogfen hon yn rhestru naw cam gweithredu, ac un ohonynt oedd i AGIC ymgymryd â rhaglen barhaus o adolygiadau i weld pa mor effeithiol oedd y trefniadau llywodraethu yn y byrddau iechyd lleol ar gyfer asesu ansawdd gofal sylfaenol.

Yn ystod 2013, gwnaethom adolygu'r gweithdrefnau a'r prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau ansawdd gofal sylfaenol, ynghyd â gwybodaeth a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd lleol ynglŷn â'u trefniadau llywodraethu yn y maes hwn. Gwnaeth ein casgliadau o'r dadansoddiad hwn lywio'r broses o ddatblygu rhaglen arolygu ar gyfer practisau meddyg teulu.

Gwnaeth y rhaglen arolygu hon wirio'n annibynnol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu mewn gwirionedd i gleifion gan eu meddyg teulu. Dyluniwyd yr arolygiadau i ddefnyddio gwybodaeth ac offer hunanasesu presennol i leihau'r baich i feddygon teulu ac ychwanegu gwerth at y prosesau hynny sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Gwnaethom weithio mewn ffordd gydweithredol ac ategol gyda chynghorau iechyd cymuned, sydd eisoes yn cynnal ymweliadau â phractisau meddygon teulu.

Gwnaethom sefydlu grŵp cyfeirio er mwyn casglu barn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys, rheolwyr practisau, byrddau iechyd lleol, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chynghorau iechyd cymuned. Mae'r grŵp hwn wedi rhoi adborth am ein cynlluniau, a bydd yn parhau i roi heriau a chynngor wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Yn ystod 2014/15, gwnaethom beilota'r rhaglen arolygu hon yn gyntaf mewn un bwrdd iechyd lleol penodol, ac yna ledled Cymru. Gwnaeth yr arolygiadau hyn ganolbwyntio ar y themâu a nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i achos Robert Powell, sef:

1. Cyfathrebu ac ymwneud â chleifion a'u teuluoedd yn well
2. Cael mynediad at gofnodion meddygol a'u rheoli
3. Gwella cyfathrebu i sicrhau dilyniant o ran gofal
4. Ymdrin â phryderon a chwynion yn dilyn marwolaeth claf

Yn y dyfodol, rydym yn bwriadu cynnal tri gwahanol arolygiad thematig o bractisau meddygon teulu, a byddwn yn datblygu'r cynlluniau hyn mewn ymgynghoriad â'r grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

Themâu'r Arolygiadau:

- **Profiad y Claf**

Yn gyffredinol, canfuwyd bod y practisau'n darparu gwasanaeth o safon uchel, ac yn gyffredinol roedd yr adborth a dderbyniodd AGIC gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Tra bod adroddiadau o arferion unigol wedi nodi meysydd i'w gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r golwg yn hyn o beth.

- **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

Ar y cyfan, canfuwyd bod y practisau'n darparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Er gwaethaf hyn, gwnaeth ein gwaith arolygu nodi rhai themâu cyson yn ymwneud â chyflawni'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru. Mae'r themâu hyn a'r camau gweithredu sydd eu hangen gan y bwrdd iechyd wedi eu hamlinellu isod.

*Cadw cofnodion* – sicrhau bod gan bractisau ddull ffurfiol o adolygu ansawdd eu cofnodion er mwyn helpu i gynnal y safonau uchel presennol.

*Pryderon* – sicrhau bod yr holl bryderon yn cael eu cofnodi, hyd yn oed y rhai sy'n cael eu derbyn yn anffurfiol.



*Cyfathrebu* – sicrhau bod practisau'n ystyried ffyrdd ychwanegol o hysbysu cleifion am newidiadau pwysig, a'u bod, wrth wneud hynny, yn ystyried gwneud defnydd rhesymol o ddulliau a deunydd cyfathrebu a fydd yn cyrraedd y nifer fwyaf o gleifion â phosibl.

Ystyried ceisio barn y cleifion am y gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn llywio'r ddarpariaeth a'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol ac o ddatblygu.

- **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Ar y cyfan, roedd y practisau wedi eu rheoli a'u harwain yn dda gan dimau o staff ymroddedig. Tra bod adroddiadau o arferion unigol wedi nodi meysydd i'w gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r golwg yn hyn o beth.

- **Ansawdd yr Amgylchedd**

Ar y cyfan, gwelwyd bod safleoedd y practisau'n darparu amgylcheddau diogel i'r cleifion dderbyn triniaeth ynddynt. Tra bod adroddiadau o arferion unigol wedi nodi meysydd i'w gwella, nid oes unrhyw themâu penodol wedi dod i'r golwg yn hyn o beth.

## **Iechyd Meddwl**

Nid yw AGIC wedi cynnal unrhyw arolygiadau o unedau iechyd meddwl y GIG yn y bwrdd iechyd yn ystod 2014/15.

## **Arferion Nodedig**

Nodwyd nifer o arferion nodedig yn ystod ein harolygiadau. Tynnir sylw at rai o'r rhain isod.

1. Gwelsom aelodau staff a oedd yn dosturiol, yn canolbwyntio ar bobl, yn garedig, yn ofalgar, ac yn ymdrin â chleifion mewn ffordd sensitif.
2. Gwelsom fod amrywiaeth o fentrau 1000 o Fwydau er mwyn gwella gofal a thriniaeth ar draws ein harolygiadau. Er enghraifft, defnyddio cyfarfodydd briffio diogelwch cleifion mewn ffordd ystyrlon wrth drosglwyddo i staff eraill.
3. Er bod y timau staff yn aml yn rheoli nifer fawr o gleifion a/neu'n wynebu pwysau allanol, roedd y timau'n cyfathrebu'n dda, yn cydweithio'n dda, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, hyd eithaf eu gallu.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r bwrdd iechyd yn dal i ddatblygu system lywodraethu a sicrwydd. Mae'r bwrdd yn pennu'r amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn, ac yn sicrhau bod dulliau rheoli priodol ar waith a'u bod yn gweithio'n iawn drwy gydol y sefydliad.

Mae blaenoriaethau'r bwrdd yn seiliedig ar y themâu allweddol canlynol:

- Gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y claf
- Diogelwch, rhagoriaeth ac ansawdd
- Grymuso'n staff ac ymddiried ynddynt
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol
- Gwella iechyd cyhoeddus

Efallai y bydd y bwrdd iechyd am ystyried i ba raddau y mae'n cyflawni'r rhain yng nghyd-destun y gwaith arolygu a wnaed gan AGIC yn ystod 2014/15. Bydd yn bwysig i AGIC gael teimlad o b'un a yw ein canfyddiadau wedi bod yn sbardun i weithgareddau archwilio a sicrhau ansawdd y bwrdd iechyd ei hun, neu p'un a yw camau gweithredu'r bwrdd iechyd mewn ymateb i'n hargymhellion wedi cael eu cyfyngu i'r safleoedd a arolygwyd gennym.

Bydd hyn yn ffactor i'w ystyried yn ystod ein rhaglen arolygu yn 2015/16, fel rhan o werthusiad ehangach AGIC o drefniadau'r bwrdd iechyd ar gyfer monitro a sicrhau effeithiolrwydd ei wasanaethau. I'r perwyl hwn, bydd AGIC yn rhoi ystyriaeth i'r materion canlynol, ac nid yn unig i'r rhain, mewn perthynas â systemau archwilio ac effeithiolrwydd clinigol:

- I ba raddau y mae gweithwyr proffesiynol rheng flaen, clinigol a rheoli, sy'n ymdrin â chleifion yn uniongyrchol, wedi'u hymrymuso'n ddigonol i leisio eu barn a chymryd camau os byddant yn nodi problemau'n debyg i'r rhai a ganfuwyd yn yr arolygiad hwn, ac yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.
- I ba raddau y mae diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu yn y bwrdd iechyd sy'n cynorthwyo'r staff i nodi ac i ddatrys problemau.
- I ba raddau y mae gan y bwrdd y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws pob ymyriad clinigol ac i gymryd camau cyflym pan fo diffygion.

Maes penodol i'r bwrdd iechyd ei ystyried o ran llywodraethu ac atebolrwydd yw sicrhau bod pob ward wedi'i chodio'n gywir. Mae hyn yng ngoleuni natur newidiol rhai wardiau penodol, lle mae nifer gynyddol o gleifion oedrannus a bregus, sydd yn aml â dementia a/neu sy'n ddryslyd, yn cael eu derbyn. Bydd hyn yn allweddol er mwyn sicrhau bod gan y wardiau hyn staff a rheolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant

priodol, adnoddau sydd wedi eu dyrannu'n briodol, a strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar gyfer y canlyniadau y mae'r wardiau hyn yn ceisio eu cyflawni.

## Ymgysylltu

Yn ystod 2014/15, gwnaeth prif weithredwr AGIC, Kate Chamberlain, ynghyd â Robin Bradfield – y rheolwr perthynas – gwrdd â phrif weithredwr a chadeirydd y bwrdd iechyd ar 30 Ionawr 2015.

Yn ystod 2014/15, mae Robin Bradfield wedi mynychu un cyfarfod pwyllgor ansawdd a diogelwch yn y bwrdd iechyd ar 1 Hydref 2014, ac mae wedi mynychu dau gyfarfod yn Swyddfa Archwilio Cymru gydag arweinwyr archwilio perfformiad y bwrdd iechyd.

Yn ystod 2014/15, mae AGIC wedi cyflwyno un llythyr i'r bwrdd iechyd. Roedd hyn mewn cysylltiad ag ymweliad monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl ag Ysbyty'r Sir, Ward Tal-y-garn. Gwnaeth AGIC dderbyn digon o sicrwydd gan y bwrdd iechyd bod camau gweithredu priodol wedi eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

## Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Yn ystod 2014/15, ni wnaeth AGIC ymgymryd ag unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau arbennig o fewn y bwrdd iechyd.

Yn ystod 2014/15, cyfrannodd AGIC at dri adolygiad marwolaeth yn y ddalfa (pob un ohonynt drwy achosion naturiol) mewn perthynas â Charchar Brynbuga. Prif ganfyddiad AGIC o'r adolygiadau hyn oedd bod gwahaniaeth yn y ffordd y mae Carchar Brynbuga a charcharau eraill yng Nghymru yn ymdrin ag argyfyngau sy'n peryglu bywyd. Nod gweithdrefn argyfyngau yw bod gan bob aelod o staff sy'n rhan ohoni ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn argyfwng. Roedd gwersi i'w dysgu er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yng Ngharchar Brynbuga yn gwybod beth fyddai eu rôl mewn argyfyngau yn y dyfodol. Mae poblogaeth y carcharorion yng Ngharchar Brynbuga yn cynnwys nifer o ddynion sy'n hŷn na 70 oed. Golyga hyn fod mwy o risg y bydd angen y gweithdrefnau argyfyngau hyn yn y dyfodol.

### **Adolygiad gan Gymheiriaid:**

Mae'r adolygiad gan gymheiriaid o wasanaethau canser a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn rhaglen sicrhau ansawdd sy'n asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan dimau amlddisgyblaethol, byrddau iechyd, a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru. Mae asesiadau'n cael eu cynnal yn defnyddio fframwaith o safonau gofal iechyd penodol a chanllawiau cenedlaethol.

Maent yn cyfuno hunanasesiad gydag adolygiad arbenigol annibynnol er mwyn sicrhau nid yn unig bod strwythurau a phrosesau ar waith i gyflenwi gofal o ansawdd uchel, ond hefyd bod timau clinigol yn cydweithio'n effeithiol a bod ethos o wella'r gwasanaeth yn bodoli sy'n seiliedig ar ganlyniadau triniaethau a phrofiadau cleifion.

Mae'r rhaglen adolygu gan gymheiriaid yn gydweithrediad rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Rhwydwaith Canser De Cymru, Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru, a'r Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol.

Mae gan y rhwydweithiau canser/y Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol gyfrifoldeb cyffredinol am:

- Gynllunio pob adolygiad gan gymheiriaid
- Cydgysylltu'r elfen hunanasesu o'r adolygiad gan gymheiriaid
- Helpu arweinwyr canser/gofal diwedd oes mewn byrddau iechyd i gwblhau'r hunanasesiad lle bo angen
- Gwirio dogfennau hunanasesu'r bwrdd iechyd yn allanol
- Hyfforddi, recriwtio a dewis yr aelodau o'r tîm adolygu gan gymheiriaid
- Gwneud cofnod ffurfiol o bob ymweliad adolygu gan gymheiriaid
- Cynhyrchu adroddiad - ar ôl pob ymweliad adolygu - a bydd drafft ohono yn cael ei adolygu gan y bwrdd iechyd/hosbis briodol cyn iddo gael ei gyhoeddi

Mae AGIC yn cefnogi'r broses adolygu gan gymheiriaid drwy:

- Helpu i gynllunio a threfnu pob adolygiad
- Ysgrifennu'n ffurfiol at fyrddau iechyd ar ddechrau pob adolygiad
- Gwneud trefniadau i fyrddau iechyd gyflwyno eu dogfennau hunanasesu yn electronig
- Arsylwi ar y broses adolygu gan gymheiriaid i sicrhau ei bod yn deg a diduedd a bod canlyniad yr adolygiad yn cael ei fynegi'n agored a thryloyw

Mae AGIC wedi cytuno i roi adroddiadau'r byrddau iechyd ar ei gwefan er mwyn i ganfyddiadau gael eu hadrodd yn agored ac yn dryloyw. Mae fersiwn gyhoeddus o'r adroddiad a'r cynllun gweithredu, felly, wedi'i chyhoeddi ar wefan AGIC. Dylai'r wybodaeth hon hefyd fod ar gael ar wefan y bwrdd iechyd y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato.

## **Prif ganfyddiadau:**

Mae'r rhain wedi eu hamlinellu isod ar gyfer pob un o'r adolygiadau gan gymheiriaid a gynhaliwyd yn y bwrdd iechyd yn ystod 2014/15. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno cynlluniau gweithredu i Rwydwaith Canser De Cymru mewn ymateb i'r canfyddiadau o bob adolygiad.

## **Pen a'r Gwddf – Adolygiad gan Gymheiriaid:**

Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd neu ddifrifol, ond nodwyd y pryderon canlynol:

- Mynediad at welyau gofal critigol ar gyfer cleifion llawfeddygol cymhleth
- Dim ond un nyrs glinigol arbenigol ac un deietegydd, ac effeithiau hyn ar rôl y gweithiwr allweddol
- Mynediad at ddeintydd adferol a hylenydd deintyddol
- Recriwtio i swydd arweinydd clinigol ar gyfer therapi lleferydd ac iaith

## **Gastroberfeddol is:**

Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd.

Gwelwyd pryder difrifol yn Nevill Hall yn ymwneud â diffyg presenoldeb radioleg ac oncoleg glinigol yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, a oedd yn cael effaith ar allu'r tîm amlddisgyblaethol i reoli cleifion â chanser y rectwm.

Fodd bynnag, nodwyd nifer o bryderon:

### Lefel y Bwrdd Iechyd

- Cynladwyedd gwasanaethau diagnostig, radioleg, patholeg ac endosgopi. Mae risg y gallai problemau capasiti yn radioleg ac endoscopi, neu ddiffyg adnoddau ym mhatholeg, gael effaith negyddol ar gymorth i dimau amlddisgyblaethol gastroberfeddol.
- Mae amseroedd aros ar gyfer colonosgopïau yn effeithio ar y rhestr aros ar gyfer goruchwyliaeth, gan gydnabod y gallai rhai cleifion ar y rhestr aros ar gyfer goruchwyllo fod â chanser.
- Ni sicrhawyd y tîm adolygu gan gymheiriaid bod cynllun tymor byr/canolig i sicrhau bod gan dîm amlddisgyblaethol Nevill Hall adnoddau i gyflawni gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol, tra bod y ganolfan gofal critigol arbenigol yn cael ei datblygu.

### Tîm Amlddisgyblaethol Nevill Hall

- Roedd nifer isel o gleifion yn cael eu rheoli drwy lwybr gofal heb ei drefnu.
- Defnyddio mentrau rhestrau aros i reoli'r galw am endosgopïau; efallai y dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw hyn yn gynaliadwy.

- Nid oedd y tîm amlddisgyblaethol yn gallu dangos ei fod yn deall ei ddata llawfeddygol yn llawn yn ystod yr ymweliad.
- Roedd cyflawnrwydd y data a oedd yn gefnogol i'r Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Coluddyn ar 37%; tynnwyd sylw at y ffaith bod y tîm wedi rhoi mecanwaith ar waith i wella eu cyflwyniad i'r archwiliad hwn.
- Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cydnabod bod angen iddynt wella'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir i'r cleifion, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

#### Tîm Amlddisgyblaethol Ysbyty Brenhinol Gwent

- Roedd cyflawnrwydd y data a oedd yn gefnogol i'r Archwiliad Cenedlaethol o Ganser y Coluddyn ar 64%; tynnwyd sylw at y ffaith bod y tîm wedi rhoi mecanwaith ar waith i wella eu cyflwyniad i'r archwiliad hwn.
- Diffyg ymgysylltu clinigol â phrofiad y claf ar draws y llwybr, a dangoswyd hyn gan ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Arolwg Cleifion Canser Cenedlaethol a diffyg cynllun gweithredu cytunedig i fynd i'r afael â'i ganfyddiadau.

#### **Gynaecoleg – Adolygiad gan gymheiriaid:**

Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd.

Nodwyd y pryderon difrifol canlynol:

- Mae nifer o lawfeddygon yn chwarae rhan mewn diagnosis a thriniaeth salwch lefel isel, i'r fath raddau y gallai hyn gael effaith negyddol ar arferion rheoli cancer gynaecoleg drwy strwythur y tîm amlddisgyblaethol.
- Mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi'i benodi'n dîm amlddisgyblaethol lleol, ond gwnaeth y tîm ddatgan mai anaml iawn, gyda chyfraniad oncoleg ac oncoleg gynaecolegol, y byddai'n atgyfeirio cleifion i'r tîm amlddisgyblaethol arbenigol yng Nghaerdydd a'r Fro. Teimlwyd bod hyn yn fodel gofal amhriodol ac annigonol, ac nad oedd yn cydymffurfio â chanllawiau NICE. Roedd defnyddio'r llawfeddyg arbenigol sy'n ymweld mewn ffordd anffurfiol yn diddymu'r buddiannau mwy eang o atgyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol arbenigol, gan gynnwys trefniadau cyflenwi. Gwnaeth y model hwn beri mwy o bryder eto pan nodwyd nad oedd y llawfeddyg yn cael ei ystyried yn aelod craidd o'r tîm amlddisgyblaethol.
- Nyrs glinigol arbenigol ran amser wedi'i phenodi – annigonol oherwydd nid yw deiliad swydd yn gweld yr holl gleifion cancer, ac efallai nad oes unrhyw wybodaeth ganddo o rai cleifion cancer, ac nid yw wedi rhyngweithio â'r rhan fwyaf ohonynt yn y cam diagnosis. Mae hyn yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, bod cael mwy nag un man mynediad a'r cyfranogwyr uchod yn gwneud y baich gwaith i'r deiliad swydd presennol ar yr oriau cysylltiedig yn annerbyniol.

- O blith y 224 o achosion a drafodwyd gan y tîm amlddisgyblaethol, dim ond 21 a atgyfeiriwyd fel gofal heb ei drefnu. Mae'r gymhareb hon yn wahanol iawn i rai eraill, ac mae'n rhaid deall yr arferion y tu ôl i'r ffigur hwn.

Rhaid hefyd nodi'r pryderon canlynol:

- Ni wnaeth y tîm amlddisgyblaethol ddangos digon o fewnwelediad i'r broses adolygu gan gymheiriaid, a'r enghraifft orau o hyn yw y cafwyd anhawster o ran esbonio'r data a gyflwynwyd a goblygiadau'r data hynny.
- Roedd nifer y llawfeddygon a gymerodd ran, a'r diffyg oriau ar gyfer y nyrs glinigol arbenigol, yn ategu'r lefel o gymeradwyaeth yn yr adolygiad gan gymheiriaid, ac mae hyn yn awgrymu nad yw'r tîm yn sylweddoli'r effaith y mae'r materion hyn yn eu cael, ac maent wedi methu ag ymateb iddynt yn ddigon cyflym o ran trafod y materion â'r bwrdd iechyd.
- Roedd yn ymddangos nad yw'r tîm wedi sylweddoli'r goblygiadau llywodraethu i'w model gwasanaethau, ac nid ydynt wedi ymateb drwy drafod y materion hyn â'r bwrdd iechyd.
- Roedd yn ymddangos bod y cyfraniad gan y llawfeddyg arbenigol o Gaerdydd a'r Fro yn seiliedig ar yr unigolyn a'i gynllun gwaith, yn hytrach nag ymrwymiad gan Gaerdydd a'r Fro i ddarparu cyfraniad oncoleg gynaeolegol i'r tîm amlddisgyblaethol – o ganlyniad, nid oes unrhywun yn cyflenwi.
- Nid yw'n glir p'un a yw'r oncolegydd gynaeolegol arbenigol yn gwneud llawdriniaethau gynaeolegol ar y safle a fyddai, neu a ddylai, gael eu gwneud mewn canolfan benodedig. Roedd yn ymddangos nad oedd y tîm yn gwybod a oedd hyn yn wir. Tybir bod atgyfeirio i oncolegydd gynaeolegol arbenigol yn awgrymu bod llawdriniaethau arbenigol o'r fath yn digwydd mewn canolfan benodedig.

## Ymweliadau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

### Ymweliadau Dilynol

Cyhoeddodd AGIC adroddiad yn dilyn pob arolygiad, ac roedd pob adroddiad yn cynnwys cynllun sy'n gwneud argymhellion ar sut i wella. Ym mhob achos, cyflwynodd y bwrdd iechyd/practisau gynlluniau gwella prydlon yn nodi eu hymatebion i'r argymhellion ynddynt. Cafodd pob ymateb ei werthuso'n unigol, a gwelwyd eu bod yn darparu sicrwydd digonol i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi cael sylw a/neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd/practisau mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella. Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd/practisau i'w hysbysu o ganlyniad y gwerthusiad hwn.

Bydd AGIC yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y bwrdd iechyd/practisau wrth fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed o ganlyniad i'w gweithgarwch arolygu. Os na fydd camau gweithredu o fewn cynlluniau gwella wedi derbyn sylw a/neu ar waith, disgwylir hefyd i'r bwrdd iechyd/practis ddarparu diweddariadau i AGIC i gadarnhau pryd y rhoddir sylw i'r materion hyn.

### Sicrwydd ar unwaith

Mae AGIC wedi cyflwyno pum llythyr sicrwydd ar unwaith o ganlyniad i'w gweithgarwch arolygu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud â phroblemau a nodwyd yn ystod arolygiadau urddas a gofal hanfodol. Ym mhob achos, derbyniwyd ymateb prydlon gan y bwrdd iechyd. Hefyd, cafodd pob ymateb ei werthuso, a rhoddwyd digon o sicrwydd i AGIC. Roedd hyn oherwydd bod y gwelliannau a nodwyd naill ai wedi derbyn sylw a/neu fod tystiolaeth i ddangos bod cynnydd yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd/practis mewn ymateb i'r pryderon ar unwaith. Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd i'w hysbysu am ganlyniad y gwerthusiad hwn.



## Gweithgarwch Arolygu

### Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Math o Arolygiad	Lleoliad ac adroddiad cysylltiedig	Dyddiad
Arolygiadau deintyddol	<a href="#">Gofal TFL Cyfyngedig</a>	19/12/2014
	<a href="#">Practis Deintyddol Hilltop View</a>	13/01/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Kieron Hastings</a>	19/01/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Northview</a>	28/01/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Devon Place</a>	02/02/2015
	<a href="#">Gofal Deintyddol Oasis, Caerffili</a>	03/02/2015
	<a href="#">Practis Deintyddol Trefynwy</a>	23/02/2015
	<a href="#">Canolfan Ddeintyddol Coed-duon</a>	03/03/2015
	<a href="#">Sarrat House (a elwir hefyd yn Goodwin), Trecelyn</a>	10/03/2015
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol	<a href="#">Nevill Hall</a>	03/12/2014
	<a href="#">Ysbyty Gwynllyw</a>	03/12/2014
	<a href="#">Ysbyty Ystrad Fawr</a>	20/01/2015
	<a href="#">Ysbyty Brenhinol Gwent</a>	21/01/2015
	<a href="#">Ysbyty'r Sir</a>	18/02/2015
	<a href="#">Nevill Hall</a>	05/03/2015
	<a href="#">Ysbyty Brenhinol Gwent</a>	18/03/2015
Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol – Dilynol	<a href="#">Ysbyty Brenhinol Gwent</a>	24/04/2014
	<a href="#">Ysbyty Brenhinol Gwent</a>	25/04/2014
	<a href="#">Ysbyty Gwynllyw</a>	24/03/2015
Arolygiadau Meddygon Teulu (arolygiadau peilot, heb eu cyhoeddi)	<a href="#">Meddygfa Bryngwyn</a>	06/11/2014
	<a href="#">Practis Meddygol Trosnant Lodge</a>	10/11/2014
	<a href="#">Meddygfa Rhisga</a>	12/11/2014
	<a href="#">Canolfan Feddygol Monmouth House</a>	28/01/2015
Deddf Iechyd Meddwl	<a href="#">Bronllys</a>	25/06/2014
	<a href="#">Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu</a>	22/08/2014
	<a href="#">Llanfrechfa Grange</a>	07/10/2014
	<a href="#">Ysbyty'r Sir</a>	28/01/2015
	<a href="#">Ysbyty Aneurin Bevan</a>	28/01/2015

## Gofal Iechyd Annibynnol

Math o Arolygiad	Lleoliad ac adroddiad cysylltiedig	Dyddiad
Adolygiadau Clinigol o Farwolaethau yn y Ddalfa	DW – Carchar Brynbuga	01/09/2014
	KW – Carchar Brynbuga	18/11/2014
	TB – Carchar Brynbuga	01/12/2014
	TB – Carchar Brynbuga	24/02/2015
Laser	Advanced Medical Aesthetics (AMA) Ltd	27/06/2014
	<a href="#">Claire Price</a>	27/06/2014
	<a href="#">Claire Price</a>	12/08/2014
Deddf Iechyd Meddwl	<a href="#">Cefn Carnau x 2</a>	08/04/2014
	<a href="#">Llan-arth x 6</a>	02/06/2014
	<a href="#">Tŷ Gwyn x 3</a>	07/10/2014
	<a href="#">St Peters x 3</a>	17/02/2015
Uned Iechyd Meddwl	<a href="#">Cefn Carnau</a>	08/04/2014
	<a href="#">Llan-arth</a>	02/06/2014
	<a href="#">Cefn Carnau</a>	22/09/2014
	<a href="#">Tŷ Gwyn</a>	07/10/2014
	<a href="#">St Peters</a>	17/02/2015
Ymweliadau Adolygu gan Gymheiriaid	Ymweliad gastroberfeddol is	12/06/2014
	Ymweliad pen a'r gwddf	25/09/2014
	Ymweliad gynaeoleg	12/01/2015
Clinig colli pwysau	<a href="#">Albany, Casnewydd</a>	07/07/2014

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015